
# HEDDWCH

Haf 1998
Rhif 17
AM DDIM (neu gyfraniad)

Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear, Cymru


***Ras Arfau Niwclear Asia ✶ Trawfynydd - rhy beryglus i chwarae plant ✶ Ysbrydoliaeth Iwerddon ✶ Llong danfor Trident rhif 4 ✶ Newydd diweddara, gweithredu, a mwy ...***

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw**

# India a Phakistan yn ymuno â'r clwb niwclear

**"Dyma'r corwynt a fedwyd am ffrwydro dyfais niwclear: anniogelwch i'r ddwy ochr, mwy o dlodi, cynhaeaf o ofn gartref a cherydd tramor."**
**Madeline Albright, Ysgrifennydd Gwladol, Llywodraeth yr UD**

Ar yr 11eg a'r 13eg o Fai, ffrwydrodd India bum dyfais niwclear yn Pokhran yn Anialwch Rajasthan. Crybwyllodd India fygythiad ei chymdogion Tsieina a Phakistan, a'r ffaith bod y ddwy wlad yn cydweithredu fel y prif reswm am y profion.

Tyfodd pwysau mewnol ym Mhakistan ar unwaith am ymateb. Ar yr 28ain a'r 30ain o Fai, ffrwydrwyd chwe dyfais niwclear ym Mryniau Chagai ger y ffin ag Afghanistan.

Yn y modd hwn ymunodd India a Phakistan â'r clwb niwclear a chyhoeddi ar unwaith eu bod yn bwriadu 'ymarfogi', gan sicrhau ras arfau niwclear yn ne Asia.

Gan ddefnyddio iaith nodweddiadol o'r Rhyfel Oer, hawliodd y ddwy wlad fod y profion yn 'sefydlogi' ac yn 'cynyddu heddwch'; y gwir amdani, wrth gwrs, yw y by dd y canlyniadau i'r gwrthwyneb yn llwyr.

## Pam nawr?

Mae'r anodd credu honiad India ei bod yn ofni Tsieina gan fod y berthynas rhwng y ddwy wlad wedi bod yn gwella'n gyson yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd rhagrith y pwerau niwclear presennol pan ddaw hi'n fater o ddiarfogi eu harfogaeth niwclear eu hunain yn ddiau yn factor. Ond ethol y blaid genedlaethol eithafol y BJP yn India ym mis Mawrth oedd y catalydd. Roedd maniffesto etholiadol y blaid yn cynnwys addewid agored i 'alw ar arfau niwclear'. Cyn gynted ag y cynhaliodd India brofion, ni ellid gwrthsefyll y galw cenedlaetholgar ym Mhakistan. Ni allai'r profion yn y ddwy wlad fod wedi digwydd mor gyflym oni bai bod rhaglenni arfau niwclear eisoes ar y gweill.

## Technoleg niwclear

Hawliodd y ddwy wlad mae "eu gwaith llaw hwy eu hunain, a neb arall" oedd y profion, gan anwybyddu yn gyfleus y cymorth sylweddol a dderbyniwyd ganddynt i sefydlu eu his-strwythur niwclear. Darparwyd cymorth niwclear i'w ddwy wlad gan Brydain, yr UD, Canada, Tsieina, Ffrainc, yr Almaen a Rwsia. Mae hyn yn dystiolaeth argyhoeddiadol bod lledaenu technoleg niwclear yn hybu lledaeniad arfau niwclear.

## Oblygiadau economaidd a chymdeithasol

Mae 75% o'r biliwn o bobl sy'n byw yn India a Phakistan heb gyfleusterau carthffosiaeth sylfaenol. Ni all y naill wlad na'r llall fforddio ras arfau niwclear gostfawr. Yn sgîl y profion, cynyddodd India ei chyllideb filwrol o 14% a Phakistan o 8%. Mae tlodion yr is-gyfandir yn amlwg yn mynd i bara i fod yng 'nghlwb 10 gwlad leiaf cymdeithasol ddatblygedig y byd' am y dyfodol rhagweladwy.

## Ymateb y cyhoedd

Er gwaethaf yr effeithiau economaidd gwael, cafodd y profion gefnogaeth gyhoeddus ysgubol ond nid unfrydol yn y ddwy wlad. Ymosodwyd yn dreisgar ar gyfarfodydd i wrthwynebu yn y ddwy wlad. Serch hynny, wrth i'r gorfoledd gwreiddiol ddechrau pylu, mae grŵpiau fel Mudiad India dros Ddiarfogi Niwclear a'r Pwyllgor Gweithredu yn erbyn y Ras Arfau ym Mhakistan. ynghyd â llawer o wyddonwyr a meddylwyr blaenllaw yn y ddwy wlad yn denu cefnogaeth wrthwynebol.

## Oblygiadau ehangach

Mae profion niwclear India a Phakistan wedi bod yn ergyd ddifrifol i'r Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr ac mae oblygiadau pell-gyrhaeddol o ran lledaeniad. Os â'r ddwy wlad ati yn agored i osod arfau niwclear yn eu lle, byddant yn wynebu llu o broblemau gan nad oes gan y naill na'r llall y strwythurau angenrheidiol. Mae'r gwledydd yn rhannu ffin 3,000 km o hyd, maent wedi ymladd tri rhyfel er iddynt ennill eu hannibyniaeth ac maent mewn anghydfod chwerw dros Kashmir.

Yn y cyfamser, gallai ras arfau niwclear rhwng y ddwy wlad yn hawdd iawn dynnu Tsieina i mewn a gwledydd eraill, o bosib. Roedd Iran yn feirniadol iawn o weithred India, ond croesawai brofion Pakistan gan ddweud bod Mwslemiaid ym mhedwar ban y byd "yn hapus bod gan Pakistan y gallu hwn".

Rhaid addasu polisïau'r pwerau niwclear yn awr i gydnabod fod lledaenu wedi digwydd a'i fod yn debyg o barhau. Yr unig gam a allai ddod â therfyn i'r broses hon fyddai i'r gwladwriaethau niwclear arfog cydnabyddedig, yn enwedig Prydain, ddiarddel eu harfau niwclear a symud ymlaen ar fyrder i weithredu Erthygl VI o'r Cytundeb Atal Lledaenu Niwclear a gweithio i waredu'r byd o arfau niwclear.

## GWEITHREDU

Ym marn CND Cymru, porthwyd y ras arfau Asiaidd newydd a brawychus hon gan drahauster yn hen wladwriaethau niwclear arfog. Mae'r llywodraeth Brydeinig yn condemnio India a Phakistan ac eto mae wedi methu gweithio o ddifrif i sicrhau byd di-niwclear, mae'n anwybyddu ei hoblygiadau o dan y CALL, a thrwy hynny'n rhoi esiampl anghywir i weddill y byd. Da chi, ysgrifennwch at eich Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA), y Prif Weinidog, 10 Downing Street, Llundain SW1A 2AA a/neu Robin Cook, Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, King Charles Street, Llundain SW1.

Os cynhelir rhagor o brofion, efallai y bydd gweithredu stryd yng Nghaerdydd a mannau eraill, cysyllter ag CND Cymru am wybodaeth.

Mae'r Cytundab Atal Lledaenu yn ymrwymo'r gwladwriaethau niwclear "i fynd ati i negydu, yn ddiffuant, ar fesurau effeithiol yn ymwneud ag atal y ras arfau niwclear yn fuan, ac ar ddiarfogi niwclear, ac ar gytuneb ar ddiarfogi cyffredinol a chyflawn o dan reolaeth ryngwladol gaeth ac effeithiol".

**Dave Andrews**




***Pa wahaniaeth yw hi i'r meirw yr amddifad a'r digartref pa un ai yr achosir y dinistr gorffwyll hwn yn enw totalitariaeth neu yn enw sanctaidd rhyddid? - Ghandi***

# Sancsiynau yn erbyn Irac - goleuni ar ben draw'r twnel?

Mae Richard Butler, cyfarwyddwr UNSCOM, comisiwn arfau arbennig y CU, wedi cyhoeddi y dylai'r broses wireddu ddangos, erbyn mis Awst, bod Irac wedi dileu ei harfau dinistr torfol ac y gallai, erbyn mis Hydref, gyhoeddi bod Irac wedi cyflawni ei hoblygiadau dadgomisiynu. O dan y penderfyniadau cadoediad a ddaeth â Rhyfel y Gwlff i ben ym 1991, rhaid i UNSCOM ardystio bod proses ddiarfogi Irac wedi ei chwblhau cyn y gellir codi embargo'r CU ar Irac. Mae arolwg gan y CU ym 1996 yn ategu honiadai Irac bod y sancsiynau wedi achosi marwolaeth mwy na miliwn o bobl, wedi hanner llwgu cenhedlaeth gyfan, a dod â thlodi i genedl a oedd gynt yn un gyfoeth. Ni fyddai dileu'r embargo ar olew yn dod â sancsiynau masnachol ehangach i ben o anghenraid.

Yn y cyfamser, er bod y bygythiad o ymosodiad milwrol wedi treio dros dro, dal i gynyddu y mae nifer lluoedd milwrol y gorllewin yn y rhanbarth. Yn ôl Ramsay Clark, cyn-Dwrnai Cyffredinol yr UD, "... mae posibilrwydd gwirioneddol y bydd yr UD yn creu ffug-fygythiad neu anwiredd newydd i gyfiawnhau bomio Irac yn filwrol ar raddfa anferth a pharlysol."

## Lleisiau yn yr Anialwch

*"Mae mewn llawer ffordd yn foesol annioddefol i dderbyn cyfrifoldeb am beri yn fwriadol ddioddefaint miloedd os nad miliynau o bobl gyffredin ddiniwed na ddewisodd erioed elyniaethu'r gymuned ryngwladol" (Emma Bonino, Comisiynydd yr UE dros Faterion Dyngarol, Ebrill 1998).*

Yn sgîl cael eu cymryd i'r ddalfa am dorri'r sancsiynau drwy geisio mynd â moddion plant i Irac, clywodd Milan Rai a Martin Thomas y gollyngwyd y cyhuddiadau yn eu herbyn. Fodd bynnag, cedwir y gwerth £400 o foddion i blant a gymerwyd oddi wrthynt, ac fe'i dinistrir.

Mae George Galloway AS a'r "Pwyllgor Brys" wedi cynhyrchu cardiau post gwrth-sancsiynau i'w danfon at y Prif Weinidog. Mae'r cardiau post ar gael oddi wrth Apêl Mariam, Ystafell 501, 7 Millbank, Llundain SW1A 0AA.

Mae angen ein cefnogaeth ar grŵp newydd sy'n bwriadu parhau i fynd â moddion at blant sâl yn Irac, torri sancsiynau'r CU, trefnu dirprwyaethau i ymweld ag Irac, a hysbysu pobl am effeithiau'r sancsiynau. Am fwy o wybodaeth am Lleisiau yn yr Anialwch neu becyn gwrth-sancsiynau (yn cynnwys penderfyniadau'r CU, papurau cefndir, dogfennau a ffigurau) cysylltwch â'r grŵp yn Stanhope House, 1 Hertford Road, Llundain N2 9BX. Tel/ffacs: 0181 444 1605. e-bost: cknight@gn.apc.org. Sieciau'n daladwy i "Voices in the Wilderness", bydd yr arian a godir yn helpu i dalu am foddion, costau amddiffyn cyfreithiol, a chostau eraill y prosiect.




TORLUN PREN: EMILY JOHNS

# Carpe Diem!

## Iwerddon yn dal ar y cyfle i annog diarfogi niwclear

Mewn apêl foesol wedi ei chyfeirio at y gymuned ryngwladol, mae Gweinidog Tramor Iwerddon, David Andrews, wedi lawnsio Clymblaid yr Agenda Newydd, grŵp o genhedloedd o'r un meddylfryd sy'n eiddgar i ailennyn diddordeb y byd mewn ymgyrchu o blaid diarfogi niwclear llwyr.

Ar Fehefin y 9fed, cyhoeddodd pob un o'r gwledydd sy'n noddi'r fenter hon, Brasil, yr Aifft, Mecsico, Seland Newydd, Slofenia, De Affrica a Sweden ddatganiad: "Byd Heb Arfau Niwclear: angen agenda newydd". Mae'n arwyddocaol bod gwladwriaethau ar drothwy bod â gallu niwclear a rhai a arferai fod â gallu niwclear ymhlith y grŵp hwn. Mae'r grŵp yn gobeithio yr â'r datganiad yn benderfyniad CU llawn a fydd yn destun trafodaeth yn y Cynulliad Cyffredinol ym mis Medi.



Ysbrydolwyd y datganiad hwn cyn y profion niwclear yn Asia sydd wedi rhoi pwysau annioddefol ar unig wrthglawdd rhyngwladol y byd yn erbyn lledaeniad arfau niwclear, y Cytundeb Atal Lledaenu (CALL) niwclear y bwriwyd cymaint o sen arno.

Meddai Gweinidog Tramor Iwerddon, David Andrews:

"Rhaid i ni sicrhau ymrwymiad gwleidyddol cadarn ar ran y gwladwriaethau arfau niwclear eu bod am symud ymlaen ar fyrder i gael gwared o'u harfau. Ni wnaiff unrhywbeth llai nag ymrwymiad syml a diamwys y tro."

"Mae difaterwch y gwladwriaethau arfau niwclear wedi peri niwed gyda'u hymdrechion pitw i wireddu'r ymrwymiadau a wnaed ganddynt ynwreiddiol wrth arwyddo'r Cytundeb Atal Lledaenu niwclear".

***Jill Stallard***

**GWEITHREDU**

Mae testun llawn Datganiad Iwerddon ar gael gan CND Cymru (01550) 750 260.

Da chi, ysgrifennwch at lysgenhadon y gwledydd allweddol a restrir isod yn gofyn i'w llywodraeth i gefnogi Datganiad Iwerddon a'i arwyddo.

Mae protocol yn awgrymu mai'r ffordd y dylid eu cyfarch mewn llythyron yw "Eich Ardderchogrwydd" yn hytrach nag "Annwyl Lysgennad". Mae copïau o lythyr drafft ar gael gan Jill Stallard, CND Cymru.

*Mr Sadayuki Hayashi, Llysgenhadaeth Siapan, 101-104 Piccadilly, Llundain W1V 9FN.*


*Dato Kamarudin, Uwch Gomisiwn Malaysia, 45 Belgrave Square, Llundain SW1X 8QT .*

Syniad Iwerddon oedd y Cytundeb Atal Lledaenu (CALL) ei hun, a lawnsiwyd ym 1958 gan y Gweinidog Tramor ar y pryd, Mr Frank Aitken. Creodd y Cytundeb, a arwyddwyd gan 181 o genhedloedd, ddau ddosbarth o chwaraewyr niwclear: y rheini oedd eisoes ag arfau niwclear (Prydain, Ffrainc, UDA, yr Undeb Sofietaidd a Tsieina) a oedd yn cytuno i weithio tuag at gael gwared ohonynt, a'r rheini na chaent ymuno heb ddatgan eu bod yn gwrthod datblygiad a defnydd arfau niwclear, gan addo peidio â chynorthwyo i'w lledaenu. Mae hyn wedi golygu rhannu'r rheini a arwyddodd yn grŵp bychan o genhedlaoedd sy'n para i gynhyrchu, datblygu a bygwth defnyddio arfau niwclear, mwyafrif sydd wedi ildio'r hawl i feddu rhai, a thrydydd grŵp, sydd ag ynni niwclear sifil, ac sydd â'r gallu a'r ewyllys i gynhyrchu arfau niwclear. Mae India a Phakistan wedi llwyddo i fynd yn bwerau niwclear y tu allan i'r CALL.

## Heddwch, Cyfiawnder a'r Amgylchedd yn Wythnos Cynefin y Werin



Mae CND Cymru yn falch o fod wedi bod yn rhan o raglen drawiadol o ddigwyddiadau a geisiai ddod â dadleuon ynghylch heddwch a chyfiawnder allan o stafelloedd cynhadledd caeëdig Uwch Gynhadledd Ewropeaidd mis Mehefin yng Nghaerdydd ac i mewn i amgylchedd a bywydau bob-dydd pobl go iawn.





Cynhaliwyd Cynefin y Werin yr wythnos cyn yr Uwch-gynhadledd Ewropeaidd yng nghapel y Tabernacl a'r cyffiniau yng nghanol y ddinas, a denodd sylw anferth gan y cyhoedd a'r cyfryngau. Gyda chaffi Masnach Deg i'n porthi, cynhaliwyd gweithredoedd stryd a chyfarfodydd drwy'r wythnos ar ddiarfogi niwclear, cyfarwyddeb Ewratom 96/29, yr Eurofighter, Dwyrain Timor, a'r fasnach arfau. Bu grŵpiau eraill wrthi'n ymgyrchu ac yn cynnal cyfarfodydd ar amrywiaeth anghyffredin o bynciau, o dorri'r gadwyn o ddyled, byd-eangoli, economi Ewrop, ffoaduriaid a noddfa, gwarchae'r UD ar Cwba, cefnogaeth i'r Palestiniaid, democratiaeth gysylltiadol i greu gweledigaeth ymbwerol ar gyfer yr 21ain ganrif. Ymhlith y llu o ddigwyddiadau ar y stryd roedd Seremoni De o'r Sahara ac arddangosfa gan Community Concern, grŵp o Gaerdydd, sy'n galw sylw at beryglon yr ymbelydredd sy'n gollwng a'r gwastraff a storir yn Amersham International a llygru'r gadwyn fwyd o ganlyniad i hynny, gan Tritiwm a radio-niwclidau eraill.

Daeth yr wythnos i ben gyda chyfarfod gorlawn a anerchwyd ag angerdd gan yr Esgob Rowan Weilliams, Angharad Tomos, David Morris ASE, a Bruce Kent. Dywedodd Bruce Kent wrthym nad oedd hi'n "ddu i gyd" o safbwynt diarfogi niwclear; yn union fel mae afonydd gogledd Canada yn dadlaith yn y gwanwyn, os gwrandawn ninnau, gallwn glywed yr ia yn hollti wrth i'r rheini a fu, i'n tyb ni, yn frwd o blaid arfau niwclear, ddechrau toddi.

I CND Cymru, pleser oedd cael treulio cymaint o amser yn gweithio ochr yn ochr â'r fath gymysgedd ryfeddol o ymgyrchwyr.

Daliwch i wrando am swn yr hollti!




## Trawsfynydd - perygl i iechyd

*"gwawl dywyll ar wyneb y ddaear"*

Cynhaliwyd gwrthdystiad ym mis Mehefin ger llaw'r orsaf ynni niwclear sy'n cael ei dadgomisiynu yn Nhrawsfynydd, Gwynedd (sy'n perthyn i BNFL Magnox) i alw sylw at y peryglon sy'n parhau i fygwth yr ardal. Testun pryder mawr i ymgyrchwyr gwrth-niwclear yw'r ffaith fod y safle a'r llyn yn cael eu datblygu fel cyfleusterau hamdden ar gyfer twristiaid, plant ysgol a thrigolion lleol, er gwaethaf y peryglon, yn enwedig i blant. Fel yr adroddwyd yn gynharach yn Heddwch, datgelodd arolwg a wnaed gan y Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog (perchnogion y safle ar y pryd) ym 1988 fod gwaddod y llyn yn cynnwys radio-niwclidau marwol fel Cesiwm 137, Plwtoniwm, Strontiwm 90 ac Americiwm. Bydd y radio-niwclidau hyn yn dal i fod yn y llyn am filoedd o flynyddoedd.




### Blinkie a'r heddlu gwrth-niwclear

Cefnogodd Blinkie, y pysgodyn ymbelydrol o gyfres y Simpsons, y digwyddiad a gwnaeth heddlu gwrth-niwclear gyrch ar y ganolfan ymwelwyr, gan ddwyn ymaith y taflenni sy'n annog pobl i ymweld â'r man peryglus hwn. Aethpwyd â'r taflenni ymaith mewn bagiau bin gwrth-niwclear.

### Canlyniadau i bobl

Gall llygredd fel hwnnw a ddarganfuwyd gan yr awdurdodau yn Nhrawsfynydd beri canlyniadau ofnadwy i bobl fel mwy o lewcemia, mathau eraill o gancr, marwolaeth babanod yn y groth a phlant ifanc, anabledd meddyliol, camffurfio cynhenid, afiechydon epiliol a phroblemau iechyd cyffredinol. Mae mudiad gwrth-niwclear Cymru yn galw am gau'r safle o gwmpas y llyn, y llwybr natur a safle'r adweithydd yn llwyr, a rhybuddio'r cyhoedd rhag mynd ar gyfyl y lle.

Cyhoeddwyd bod yr arolwg ymarferoldeb (a gostiodd £30,000 i drethdalwyr Gwynedd) wedi dod i'r casgliad na fyddai hi'n ymarferol addasu neuadd tyrbinau Trawsfynydd yn stiwdio ffilmiau.

***Jill Stallard***

### GWEITHREDU

Wrth i ni fynd i'r wasg, nid yw cais stordai diogel Trawsfynydd wedi mynd ger bron yr awdurdod cynllunio. Os ydych yn pryderu o gwbl am ddyfodol y safle, ysgrifennwch at: Swyddog y Parc Cenedlaethol, Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LS, yn gofyn iddynt eich hysbysu am hynt a helynt proses gynllunio Trawsfynydd, gan ei bod yn bosib y byddwch am wrthwynebu i'r cynlluniau stordai diogel. Am wybodaeth fwy manwl, cysylltwch â Hugh Richards, Cynghrair Gwrth-Niwclear Cymru, Blwch Post 1, Llandrindod, Powys LD1 5AA (01982) 570 362.






# Hyfrydwch Helen

## "heddwch oedd ei byd, heddwch oedd ei bywyd"

Cynhaliwyd dathliad coffa Helen Thomas ar yr 16eg o Fai 1998 yng Ngardd Heddwch y Deml Heddwch, Caerdydd. Agorodd Côr Cochion y seremoni gyda chân heddwch o Dde Affrica, "Senzenina - Beth a wnaethom?"

Siaradodd Mary Millington a Sarah Hipperson, menywod heddwch o'r Glwyd Felen yng Nghomin Greenham, am ddewrder mawr Helen Thomas wrth weithredu'n uniongyrchol dros heddwch, a disgrifio pendantrwydd cadarn Helen wrth iddi hi amddiffyn ei gweithredoedd ger bron yr heddlu a'r ynadon yn ei mamiaith.

Heddwch a'r frwydr yn erbyn hiliaeth oedd ei bywyd. Cyffyrddodd ei hynni a'i brydfrydedd ifanc â phawb oedd yn ei hadnabod a gadawodd fwlch anferth yn eu bywydau pan gafodd ei lladd yn drasig gan gerbyd heddlu tra'n ymgyrchu yn erbyn arfau dinistr torfol.



LLUN: BEATTIE SMITH

TEULU A CHYFEILLION HELEN THOMAS, YMGYRCHYDD DROS HEDDWCH A CHYFIAWNDER, YN Y DEML HEDDWCH, CAERDYDD

Darllenodd Menna Elfyn gerdd am Helen, a chanodd Dafydd Iwan ei deyrnged hyfryd, "Heddwch dy fywyd di, heddwch dy fyw, a diolch a wnawn am ddangos i ni ystyr cariad Duw".

Soniodd y Parchedig Douglas Beale am yr amryfal ddelweddau o Helen Thomas yng ngwydd ei ffrindiau a'i gelynion: y ferch naif, y modd y pardduai'r cyfryngau fenywod Greenham ac, i gloi, y symbol o sut y gall "y bobl fach" gyfodi a sefyll fel cewri uwch law'r pwerau sy'n eu gormesu. Cyfeiriodd at anfadwaith y profion niwclear gan India yr wythnos honno.

Rhoddwyd y rhofiad cyntaf o bridd ar wreiddiau derwen ifanc gan y Dirprwy Arglwydd Faer, Harry Ernest. Rhoddodd hwnnw'r gorau i'r araith oedd yn barod ganddo, a siarad o'r galon am sut roedd gwrando ar y teyrngedau i Helen wedi gwneud iddo weld ei brwydr hi dros heddwch mewn cyd-destun cwbl newydd - un a oedd yn cynnwys yr holl frwydrau a olygai gymaint iddo ef yn bersonol: Martin Luther King, Gandhi, Nehru - oll yn arddel gweithredu uniongyrchol di-drais, fel Helen hithau.

Gorchuddiodd teulu Helen - ei mam a'i thad, brodyr a chwiorydd a nithod - wreiddiau'r goeden, a daeth y seremoni i ben gyda'r côr yn canu Buddugoliaeth, am fuddugoliaeth anorfod y werin bobl, i dôn Cwm Rhondda.

Casglwyd llofnodion ar ddeiseb yn galw ar i India roi'r gorau i brofion niwclear.

Byddai Helen wedi cymeradwyo hynny.

***Ray Davies***

LLUN: BEATTIE SMITH

DAFYDD IWAN A TAD LEWIS YN PLANNU COEDEN HELEN YN YR ARDD HEDDWCH






LLUN: WENDY LEWIS

CASGLU LLOFNODION YNG NGHAERDYDD

# Mynd â neges i India o Gymru

***"At: Brif Weinidog India, Atal Behari Vajpayee***

*Roeddem ni, sydd wedi arwyddo isod, wedi ein syfrdanu i ddysgu bod gwlad hedd-garol India wedi cynnal tri (pump, yn ddiweddarach) prawf niwclear i ddatblygu ei rhaglen arfau niwclear. Mae'n gas gennym bob arf dinistr torfol ac roeddem wedi edmygu llywodraeth India am ei chefnogaeth i'n hachos a'i hymrwymiad ymddangosiadol i ddiarfogi niwclear.*

*Rydym yn byw mewn gwlad sy'n gwastraffu ein harian a dyfodol ein plant ar ei harfau niwclear ei hun, a gwelwn fod arfau o'r fath heb wneud dim ond dwyn gwarth moesol, dynol ac amgylcheddol ar ein cymunedau.*

*Galwn arnoch chi a'ch llywodraeth i roi'r gorau i ddatblygu'r arfau dinistr torfol arswydus hyn, a bod yn esiampl i genhedloedd eraill y Byd."*

Mewn cyfnod o ddim ond tridiau yn sgîl y prawf arfau niwclear cyntaf gan India casglodd gweithredwyr dros heddwch yng Nghaerdydd, ynghyd ag aelodau Côr Cochion Caerdydd, 1500 o lofnodion ar y llythyr protest uchod yn erbyn profion bomiau niwclear India. Roedd ymateb pobl Caerdydd yn wych; dim ond diffyg amser a gyfyngodd ar nifer y llofnodion.

Ddydd Mercher 19eg o Fai teithiodd Is-gadeirydd CND Cymru, Ray Davies, Wendy Lewis, Carwyn a Tad i Dy India yn Llundain i gyflwyno'r llythyr i Brif Weinidog India. Pan gyrhaeddom yno, trefnwyd cyfarfod ar fyrder gyda Gweinidog Gwleidyddol India, Mrs Sharme. Rhoddodd Ray'r llythyron protest iddi gan fynegu pryderon dwys pobl Cymru am y profion a'n pryderon am y cynnydd anorfod yn y bygythiad niwclear.

Dywedodd y gweinidog fod India wedi gorfod ymladd tri rhyfel er 1950 yn erbyn Tsieina a Phakistan ac mai mater o hunan-amddiffyn oedd profi dyfais niwclear. Erfyniodd Ray ar y Gweinidog i gyfleu anhapusrwydd CND Cymru am y profion, ac i India osod esiampl i weddill y byd drwy roi'r gorau yn unochrog i brofion yn y dyfodol, a thrwy arwyddo'r Cytundeb Atal Lledaenu.

Dyfynodd wedyn o blac yng nghyntedd Tŷ India, is-law cerflun o'r ymgyrchydd Indiaidd dros gyfiawnder cymdeithasol, Dr Bhimrao Ramji, sy'n ei annerch fel a ganlyn:

*"... dy neges yn goelcerth yn ngolwg y byd*

*ffagl lachar o gyfiawnder a goleuni*

*Dysgaist i ni nad yw grym yn iawn"*

Mynegodd Mrs Sharme syndod gwirioneddol o dderbyn 1500 o lythyron o un ddinas, ac addawodd eu danfon ar fyrder i swyddfa Prif Weinidog India.

Pan adawsant yr adeilad, cawsant eu holi'n fanwl gan uwch swyddog o'r Heddlu Metropolitaidd.

***Wendy Lewis***




LLUN:WENDY LEWIS

RAY A CARWYN DAVIES, A CHYFAILL, Y TU ALLAN I DY INDIA

WYDD DIWEDDARA ... NEWYDD DIWEDDARA ... NEWYDD DIWEDDARA ...

## Dounreay

*Mae bys a bai yn pwyntio at Dounreay ...*



Yn dilyn blynyddoedd o waith gan ymgyrchwyr gwrth-niwclear, Plaid Genedlaethol yr Alban, David Morris ASE, Llew Smith AS, grŵpiau pwyso lleol a llawer o bobl eraill, ni allai Dounreay oroesi. Roedd radio-niwclidau wedi gollwng, roedd y gath o'r cwd, ac o'r diwedd, ym mis Mehefin, cyhoeddwyd y byddai'n cau. Fel y disgrifiwyd mewn rhifyn blaenorol o Heddwch, dyma orsaf niwclear arall gostus, na lwyddodd i gyflawni ei haddewid erioed: ceisiodd y rheolwyr gelu bod deunydd ymbelydrol wedi gollwng a ffrwydrad mewn siafft niwclear a oedd yn cael ei defnyddio fel tomen wastraff. Y digwyddiad olaf oedd colli pob pwer am 16 awr pan dorrodd peiriant cloddio drwy geblau, gan barlysu'r orsaf wedi i'r system argyfwng fethu hefyd.

Yn y gwanwyn, dywedasid wrth y cyhoedd fod Dounreay yn lle diogel i brosesu deunydd niwclear o Georgia. Meddai Alex Salmond, arweinydd yr SNP "Mae'n gwbl amlwg nad yw record o'r fath yn gymharus â honiad y llywodraeth mai Dounreay yw'r lle mwyaf diogel yn y byd i drin gwastraff niwclear." Yn gynharach eleni, cyfaddefodd y llwyodraeth bod 170 kg o ddeunydd gwastraff o Dounreay wedi mynd ar gyfeiliorn. Disgwylir iddi gymryd o leiaf 100 mlynedd i gau'r orsaf a hyd yn oed wedyn, bydd y safle'n llygredig am byth.

## ... a'r wraniwm hwnnw o Georgia ...

Mae'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear wedi galw am fesurau i leihau'r peryglon a achosir gan ddefnyddiau niwclear. Y cam cyntaf, pwysicaf yw i bob gwlad roi'r gorau i gynhyrchu defnyddiau hyn a threfnu darpariaeth effeithiol ar gyfer storio'r defnyddiau hynny sy'n bod eisoes mewn modd y gellir ei arwylio.

Mae'r camau a awgrymir gan CND yn cynnwys

- Cytundeb rhyngwladol i reoli deunydd ymholltol.
- Sefydlu cronfa ddiarfogi ryngwladol i gynorthwyo gwledydd ag economïau eiddil nad oes ganddynt yr adnoddau i ymdrin yn ddiogel â'u gwaddol niwclear.
- Dileu arfau niwclear o'r holl fyd.
- Atal prosesu ac ailbrosesu niwclear

Tra'r oedd y cyfryngau'n bloeddio am y posibilrwydd yr eid â 15 kg o ddeunydd niwclear i Dounreay, doedd neb fel pe baent yn poeni am y miloedd o dunelli metrig a fewnforir i Brydain bob blwyddyn gan BNFL!

## Sellafield mewn trwbl eto

Mae problemau BNFL eleni wedi arwain at alw o'r newydd am gau'r Gwaith Ailbrosesu Ocsid Thermol (THORP). Darganfuwyd bod dwr oeri llygredig yn gollwng o danciau Gwastraff Lefel Uchel THORP pan ymddangosodd staen llaith ar ochr allanol un o'r tanciau. Roedd adroddiad gan Peter Taylor, a gyhoeddwyd ym 1994, wedi rhybuddio mor annigonol oedd y tanciau hyn, ac mynegwyd pryderon hefyd gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch, yr Arolygaeth Sefydliadau Niwclear a Sefydliad Amddiffyn rhag Ymbelydredd Iwerddon.

Bu THORP, sy'n ailbrosesu tanwydd o orsafoedd ynni niwclear o bedwar ban, ar gau ers tri mis, er mis Ebrill. Mae'r mudiad gwrth-niwclear wedi galw eto am ei gau yn barhaol wedi'r darganfyddiad bod piben yn y gwaith wedi 'treulio ar garlam'.

Peth chwithig i BNFL hefyd oedd y newyddion y derbyniwyd nifer fawr o fflasgiau tanwydd niwclear o dir mawr Ewrop gyda lefel uwch o lygredd nag a gydnabuwyd yn flaenorol. Cafwyd lefelau hyd at 25 gwaith yn uwch na'r lefelau a ganiateir yn Nociau Barrow ac ar fflasgiau yn Dunkirk. Mae symud fflasgiau niwclear wedi ei wahardd ar hyn o bryd gan SNCF, cwmni rheilffyrdd Ffrainc, a llywodraethau'r Almaen a'r Swisdir.

Cludir tanwydd hesb o dir mawr Ewrop o Dunkirk i Barrow in Furness gan long y BNFL, European Shearwater, a fyddai fel arfer yn cwblhau rhyw 8 - 12 mordaith y flwyddyn, gan gario rhyw chwe fflasg bob tro. Yn ddiweddar, cwtogwyd ar nifer y fflasgiau wedi i'r math NTL 11 gael ei thynnu'n ôl ar ôl methu prawf gollwng 9 metr yr Awdurdod Ynni Atomig dair gwaith. Cludir fflasgiau o Barrow i Sellafield fel rheol gan is-gwmni rheilffordd BNFL, Direct Rail Services.

## Diogelwch Niwclear: Pigion o Lythyr Newyddion yr Arolygaeth Sefydliadau Niwclear (NII)




Sellafield: mynegwyd pryder bod 'ymbelydredd yn cael ei gludo o'r safle gan golomennod a mathau eraill o greaduriaid gwyllt'. Rhaid i'r rheolwyr 'ddarganfod ffynonellau ymbelydredd posibl', ac yna 'symud yr ymbelydredd, ei sefydlogi fel na ellir ei ddwyn ymaith, neu atal mynediad i greaduriaid gwyllt'.

Sellafield: safle trin gwastraff B80: bwriedir cywasgu'r drymiau dur meddal 200 litr presennol sy'n dal defnyddiau a lygrwyd gan blwtoniwm, a'u pacio mewn unedau o chwech mewn drymiau cynnyrch dur di-staen wedi eu peiriannu a'u growtio â sment. Bwriad hynny yw lleihau'r pentwr o hen ddrymiau "a phroblemau storio tymor-maith" tra'n digwyl am "gael gwared ohonynt yn y man mewn cynhwysydd tymor-maith addas".

Nam y Mileniwm: archwilir pob system gyfrifiadurol oherwydd "natur anrhagweladwy unrhyw amhariad ar systemau". Rhaid i'r NII a'r diwydiant niwclear, fodd bynnag, "fynd ati'n bwyllog i ymdrin ag unrhyw broblem". Bydd angen i rai cannoedd o eitemau ar bob safle gael "eu sgrînio'n bositif".

## Rwsia'n gwerthu offer niwclear i India ... ac arfau niwclear i Iran?

Mewn cytundeb a arwyddwyd ar 21ain Mehefin, cytunodd Rwsia i werthu dau adweithydd niwclear i India. Ar Fehefin 11eg, cytunasai Rwsia â chytundeb uwch-gynhadledd G8 i beidio ag allforio technoleg niwclear i India neu Bakistan. Yr UD a Chanada a adeiladodd adweithyddion niwclear cynharaf India yn y 1960au, ond daeth y cysylltiadau hynny i ben wedi prawf niwclear India ym 1974. Mae Rwsia eisoes wedi gwerthu adweithyddion i Iran a gwyddys ei bod yn eiddgar i allforio technoleg niwclear. Cytunwyd ar bwrcasiad India ym 1988. Mosgo oedd prif gyflenwydd arfau India cyn cwymp yr Undeb Sofietaidd. Mae'r debyg fod lluoedd arfog India ar fin prynu amrywiaeth o offer amddiffyn gan Rwsia hefyd, yn cynnwys awyrennau rhyfel.

Mae papur Israeli, The Jerusalem Post, yn honni ei fod wedi cael gafael ar ddogfennau sy'n profi bod Iran wedi prynu sawl arfben niwclear gan gyn-weriniaeth Sofietaidd yn y 1990au cynnar.

## Diddymu 2000



Mae mwy na mil o fudiadau ym mhedwar ban y byd bellach yn cefnogi amcanion y rhwydwaith gwrth-niwclear Diddymu 2000 ac yn ymgyrchu'n weithredol drostynt. Ym Mhrydain mae rhyw gant o grŵpiau o sbectrwm llydan iawn yn cymryd rhan. Yng Nghanada, mae'r holl eglwysi wedi uno i alw ar eu llywodraeth i bwyso am Gytundeb Diddymu arfau niwclear erbyn y flwyddyn 2000. Yn Siapan, mae'r grŵp Bwdaidd Soka Gakkai Rhyngwladol wedi casglu 13 miliwn o lofnodion yn cefnogi. Mae CND Cristnogol ym Mhrydain yn annog Cynhadledd Anglicanaidd Lambeth i ddatgan eu cefnogaeth yn ystod eu cyfarfod haf.

# ...EWYDD DIWEDDARA ... NEWYDD DIWEDDARA ... NEWYDD DIWEDDARA ...

Y newyddion drwg yw y cynigiwyd Cynnig Diddymu 2000 yng Nghynulliad Cyffredinol y DU, yn annog llywodraethau i ddechrau negydu i ddileu arfau niwclear erbyn y flwyddyn 2000, a phleidleisiodd Prydain yn ei erbyn. Gwrthwynebodd 25 o wledydd eraill gyda 24 yn atal eu pleidlais. Yn ffodus, cefnogodd 116 o wledydd, yn cynnwys Tsieina, y cynnig. Hyd yn oed os caiff ei gymeradwyo, mae'n annhebyg y caiff cytundeb dileu arfau niwclear ei gwblau a'i arwyddo mor gynnar â'r 1af o Ionawr 2000. Mae camau sylweeddol yn y cyfeiriad hwnnw yn bosibl, a rhaid eu cymryd.

**GWEITHREDU**

Mae'n debyg y gosodir yr un cynnig ger bron eleni eto, felly mae'n rhaid dwyn pwysau ar y llywodraeth i'w gefnogi. Ysgrifennwch, da chi, at y Prif Weinidog, Tony Blair, 10 Downing Street, Llundain SW1A 2AA.

Cydgysylltir Diddymu 2000 yng Nghymru gan Gynghrair Cymru yn erbyn Arfau Niwclear (01446) 774452 (George Crabb).

## Faslane

Wrth i'r rhifyn blaenorol o Heddwch fynd i'r wasg taflwyd achos Cyngor Argyll a Bute o blaid cael gwared o Wersyll Heddwch Faslane allan gan y llys. Apeliodd y Cyngor yn erbyn y dyfarniad (galwodd twrnai'r gwersyll hynny'n "apêl collwr gwael") ond ni ddisgwylir dyfarniad am o leiaf fis wedi'r gwrandawiad. Ymddengys yn annhebyg y llwydda'r apêl.

Mae tair llong danfor Trident yn gweithredu o Faslane, ac mae un ohonynt bob amser allan ar y môr, yn barod i danio ei thaflegrau. Cedwir rhyw 250 o fomiau atomig yn Faslane, y rhan fwyaf ohonynt ar y llongau tanfor a'r gweddill yn stordy Coulport yr ochr draw i Gareloch. Cedwir holl arfau niwclear Prydain ar afon Clud bellach, ac eithrio'r rheini sy'n cael eu hadeiladu, y rheini sy'n cael eu hadnewyddu, a'r rheini sy'n cael eu cludo rhwng safleoedd.

Yn ystod mis Awst, bydd gweithgaredd mawr yn Faslane. Mae si ar led y dygir 300 yn ychwanegol o heddgeidwaid y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r ardal, ac mae llawer ohonynt yn ymarfer sgiliau newydd er mwyn gallu dal pobl yn canwio ar y loch. Yn ystod Gorffennaf a dechrau Awst, bydd Taith Gerdded ar ei ffordd i Faslane o Frwsel. Bydd gweithredoedd Trident Ploughshares yn ceisio dadarfogi Trident yn ddi-drais yn yr orsaf arfau niwclear ac ar Awst 15fed, mae CND yr Alban wedi trefnu gwrthdystiad yn Faslane, o 12.30pm ymlaen. Bydd yn cynnwys ymgyrchu ar y strydoedd, rali wrth y ganolfan longau tanfor, hwylio ar Gareloch a ceilidh ger Clwyd Ddeheuol y ganolfan.

**GWEITHREDU**

Am fwy o wybodaeth am y gweithredu yn Faslane, cysyllter â swyddfa CND yr Alban (0141) 423 1222

## Stigma SAA Aldermaston

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi colli ei hapêl yn erbyn dyfarniad iawndal am lygru tir o gwmpas Sefydliad Arfau Atomig (SAA) Aldermaston yn Berkshire. Dyfarnodd y tri barnwr bod "toreth o dystiolaeth" bod llygru ymbelydrol gan blwtoniwm ac wraniwm wedi "stigmateiddio" stâd 137-erw'r grŵp diwydiannol Blue Circle yn ei chrynswth. Torrodd pyllau gwastraff ar safle ymchwil y SAA eu glannau yn ystod storm law ym 1989 a gorlifo corsydd a llyn. Llygrwyd mil metr giwbig â phlwtoniwm 1,000 gwaith yn uwch na "lefelau cefndir" a rhaid oedd cloddio'r pridd allan o'r stâd, ond parhaoedd y llygredd, a bu'n rhaid atal gwerthu'r stâd, maenordy rhestredig, gwesty a chanolfan gynadleddau. Cynyddodd y barnwyr yr iawndal a ddyfarnwyd i £5,216,930 - a bydd y swm terfynol hyd yn oed yn fwy pan ychwanegir y llog sy'n ddyledus arno. Gwrthodwyd caniatâd i'r Weinyddiaeth Amddiffyn apelio i Dy'r Arglwyddi. Bil niwclear arall i bobl gwledydd Prydain ei dalu.

## Cloc Dydd y Farn - yn nes at hanner nos



Mae'r profion niwclear Asiaidd wedi dod â Chloc Dydd y Farn y Bulletin of Atomic Scientists bum munud yn nes at hanner nos. Meddai Leonard Rieser, ffisegydd a chadeirydd bwrdd y Bwletin, "Mewn ymateb i'r profion hyn gan India a Phakistan a methiant y pwerau niwclear i gwtogi'n sylweddol ar eu harfogaeth anferth, rydym yn mynd i symud bysedd y cloc i naw munud i hanner nos. Teimla'r Bwrdd bod y rhain yn amseroedd peryglus." Argraffwyd llun o'r cloc ar glawr y Bwletin er 1947. Ym 1991, gosodwyd y bysedd ar 17 munud i hanner nos gyda therfyn ras arfau'r UD/Undeb Sofietaidd, ac fe'u hail-osodwyd ym 1995 ar 14 munud i hanner nos yn sgîl bygythion parhaus i heddwch yn y cyfnod wedi'r Rhyfel Oer.

## Chernobyl

Wrth i blant o ranbarthau llygredig Belarus, Wcrean a gorllewin Rwsia symud i mewn i gymunedau bychain ledled Cymru am wyliau i wella eu hiechyd a gwneud ffrindiau newydd, mae'r straeon o'r rhanbarthau hyn yn dal i fod yn ddifrifol. At hynny, mae llywodraeth Wcrean wedi ailgychwyn adweithydd 3 gorsaf Chernobyl. Mae adweithydd 3 yn rhannu wal gydag adweithydd 4, sydd yn awr wedi ei gladdu mewn sarcoffagws concrid sy'n dadfeilio. Mae Wcrean yn pwyso ar yr awdurdodau Ewropeaidd i roi mwy o arian iddi cyn y gwnaiff gytuno i gau'r adweithyddion. Clustnodwyd rhyw £3 biliwn i adeiladu sarcoffagws newydd yn Chernobyl, ond go brin bod hynny'n ddigon. Mae angen cymorth ar Wcrean i ddatblygu ffurfiau newydd adnewyddadwy o gynyrchu ynni.

**GWEITHREDU**

Gellir cysylltu â Phrosiect Plant Chernobyl yng Nghymru d/o Myrla Eastland (01222) 864793 neu Rob Murphy (01222) 777271. Cofion cynnes a chariad oddi wrth CND Cymru i holl 'blant Chernobyl' sy'n ymweld â Chymru yr haf yma.

## Vanunu

Ar ôl treulio bron 12 mlynedd mewn cell ar ei ben ei hun yng ngharchar Ashkelon yn Israel am y "drosedd" o ddatgelu rhaglen arfau niwclear Israel o'r byd, caniateir i Mordechai Vanunu yn awr i gymysgu fel y mynn gyda charcharorion eraill. Fodd bynnag, er gwaethaf gobeithion y gallai fod yn gymwys i dderbyn parôl erbyn hyn, a dau-draean o'i ddedfryd ddeunaw mlynedd wedi mynd heibio, penderfynodd y bwrdd parôl bod "y tebygrwydd mawr iawn o berygl gwirioneddol i ddiogelwch y wladwriaeth a'i chysylltiadau tramor pe rhyddheid y carcharor". Yn rhyfedd ddigon, y rheswm dros beidio â'i gadw mewn cell ar wahân bellach oedd y ffaith nad oedd bellach yn berygl i ddiogelwch. Er ei fod yn arddangos arwyddion clir o straen meddyliol, dywedir bod Mordechai Vanunu mewn hwyliau da. Mewn hysbyseb na welwyd ei bath o'r blaen, galwodd 600 o academyddion o Israeliaid ar i'r awdurdodau ryddhau Vanunu. Cyhoeddodd yr un papur-newydd gyfweliad gyda brawd iau Vanunu, Danny.

**GWEITHREDU**

Da chi, danfonwch lythyron/cardiau cefnogol at Mordechai Vanunu, Carchar Ashkelon, Ashkelon, Israel. Am wybodaeth bellach, cysyllter â'r: Ymgyrch i Ryddhau Vanunu a thros Ddwyrain Canol Di-niwclear, 89 Borough High Street, Llundain SE1 1NL (0171) 378 9324 www.nonviolence.org/vanunu

## Gorsaf ynni niwclear Dimona

Ledled y byd, mae rheolwyr gorsafoedd niwclear wedi mynnu beunydd nad oes fawr o wahaniaeth rhwng cyfraddau cancr ymhlith gweithwyr niwclear a'r rhai'r boblogaeth yn gyffredinol.

Yng ngorsaf ynni niwclear hynod gyfrinachol Israel yn Dimona, mae'n bosib bod pethau'n newid. Talwyd iawndal o $985,000 i deulu gweithiwr a fu farw o gancr. Dywedodd yr Athro Modan, yn siarad yn y llys ar ran teulu Haim Itach "bu Haim Itach ym mhresenoldeb ymbelydredd lefel-isel yn rheolaidd am 20 mlynedd ... mae tebygrwydd mawr iawn fod Itach wedi datblygu ei salwch o ganlyniad i bresenoldeb ymbelydredd yn ei fan gwaith". Daeth twrnai'r teulu i'r casgliad y bu "ymgais glir i gau llygaid a dirmyg at fywyd dynol" ac mae'r brif broblem oedd y cyfrinachedd eithafol o gwmpas adweithydd Dimona. Yn sgîl yr achos, cafodd cynnig y dylid gorfodi'r wladwriaeth i gyhoeddi data ynglyn â gorsafoedd niwclear, ac y dylid rhoi iawndal i weithwyr sâl, ei rwystro gan y Pwyllgor Materion Diogelwch.

Ugain mlynedd wedi i Mordechai Vanunu ddatgelu i'r byd fod Dimona yn cynhyrchu arfau niwclear, er budd Diogelwch y Wladwriaeth, mae Israel yn dal i wrthod dweud y gwir.



## Yr UD ym Mhrydain

Costiodd bron £2 filiwn y llynedd i gael heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn i warchod Gorsaf Sbïo'r UD yn Menwith Hill yn Swydd Efrog.

Trosglwyddwyd 6 'stratotanker' sy'n gallu rhoi tanwydd i awyrennau yn yr awyr o Washington i Mildenhall yn Suffolk. Mae'r llinell goch ar y map sy'n dangos yr ardal o gwmpas y gwersyll y gwaherddir yr ymgyrchydd heddwch Lindis Percy rhag mynd iddi wedi cael ei marcio go iawn gan blatiau metel sgwâr yn dwyn yr arysgrif "MoD".

Yn Lakenheath, Suffolk, (lle mae 47 o fomiau rhydd-gwymp B61 yr UD wedi eu storio mewn 33 daeargell), cymeradwywyd adeiladu 500 cartref ychwanegol ar gyfer staff milwrol yr UD.

Ac eithrio arfau arlongau tanfor, yr UD yw'r unig wlad sydd ag arfau niwclear wedieu lleoli y tu allan i'w ffiniau ei hun.

## Hanford, Washington, UDA - pris diogelwch niwclear

Mae Talaith Washington wedi dwyn achos llys yn erbyn Adran Ynni'r UD am fethu cyflawni ei hymrwymiad i lanhau'r gwaith arfau niwclear yn Hanford yn unol â'r 'Cytundeb Tri-Pharti'. Ers mwy na 50 mlynedd bu safle niwclear Hanford yn Nhalaith Washington yn un o brif gyfleusterau cynhyrchu deunydd arfau niwclear yr UD. Mae'r gweithgaredd hwn wedi llygru'r holl ardal yn helaeth ac wedi arwain at gydgrynhoad o wastraff niwclear, yn cynnwys dau-draean o wastraff ymbelydrol lefel-uchel yr Adran Ynni a 75 y cant o'i thanwydd niwclear hesb. Mae 70 o'r 149 o danciau storio gwastraff ymbelydrol yno wedi methu, gan ollwng miliwn o alwyni i'r ddaear ac i'r dwr daear, a chedwir mwy na 2,000 tunnell o danwydd niwclear sy'n prysur ddirywio mewn basnau llawn dwr o fewn chwarter milltir i afon Columbia. Mae un basn eisoes wedi gollwng. Mae Gary Locke, Llywodraethwr Talaith Washington, wedi ysgrifennu at yr Arlywydd Clinton yn alw am gamau i ddiogelu'r amgylchedd a iechyd y boblogaeth.

Ar yr un pryd, mae adweithydd bridio i gynhyrchu'r nwy ymbelydrol Tritiwm er mwyn cynhyrchu bomiau-H ar fin cael ei ailgychwyn. Mae twrnai wedi danfon cyfarwyddyd at seneddwr lleol gan nodi fod defnyddio adweithydd suful i gynhyrchu Tritiwm ar gyfer bomiau-H yn bradychu ysbryd y Cytundeb.

*Diolch i Carole Woods, Seattle, cefnogydd CND Cymru*

## Adladd profion niwclear India

Mae pentrefwyr Khetloi, sy'n byw o fewn 3 km i faes profion niwclear India, wedi bod yn achwyn bod eu llygaid yn llosgi, eu trwynau'n gwaedu a bod ganddynt broblemau anadlu wedi profion niwclear India ym mis Mai. Dywedodd y Prif Weinidog, Atal Behari Vajpayee, na fu alldafliad o'r profion. Mae'r pentrefwyr wedi mynnu y dylid danfon 'radiolegydd cymwys' i'w pentref i ddarganfod a yw haeriad y Prif Weinidog yn wir ai peidio. Does dim newydd eto am effeithiau profion niwclear Pakistan.




## Prydain yn darparu gwasanaeth i lywodraeth Indonesia

Mewn llythyr at Ann Clwyd, AS Cwm Cynon, cyfaddefodd y Gweinidog Amddiffyn, John Reid, bod yr Awyrlu Brenhinol yn dysgu peilotiaid o Indonesia i hedfan awyrennau rhyfel Hawk (dros Gymru, mae'n debyg). Defnyddiwyd yr awyrennau hyn yn erbyn pobl Dwyrain Timor sydd wedi colli 200,000 o'u poblogaeth oherwydd bod eu gwlad dan fawd Indonesia. Erbyn mis Gorffennaf roedd yr RAF wedi hyfforddi pump hyfforddydd a 24 darpar-beilot. Mae swyddogion o Indonesia yn y Coleg Astudiaethau Amddiffyn Brenhinol, Awdurdod y Cyd-luoedd a'r Coleg Staff yn Bracknell, y cwrs astudiaethau diogelwch ym Mhrifysgol Hull, a'r Coleg Gwyddor Filwrol Brenhinol yn Shrivenham, canolfan hyfforddi elitaidd sydd â'r nod o arwain y byd mewn "addysg" filwrol. "Mae galw am fyfyrwyr tramor addawol am y taliadau a ddaw gyda hwy a'r dylanwad diplomataidd a roddant i Brydain" (Observer, 10 Mai 1998). Ym mis Mai, digwyddodd milwr a 'restiodd' Andi Arief, gweithredydd o fyfyriwr yn Ne Sumatra, a'i holi'n ddibaid am ddeg diwrnod am ei ffrindiau, ddweud ei fod wedi dychwelyd ychydig wythnosau ynghynt o gwrs hyfforddi ym Mhrydain.

Mae dyn yn gofyn sut yn y byd mae Indonesia, yn ei sefyllfa economaidd bresennol, byth yn mynd i dalu Prydain am yr holl addysg yma.

GWEITHREDU

Mae'r ymgyrch yn mynd yn eu blaen. Cysylltwch ag Atal yr Hawks Caerdydd (01222) 706236, Atal yr Hawks Gwynedd (01286) 882359, Y Glymblaid Brydeinig dros Ddwyrain Timor (0181) 985 1127.



## Gair i GALL

Mae'r Pwyllgor Paratoadol ar gyfer Cynhadledd Arolwg 2000 y Cytundeb ar Atal Lledaenu Arfau Niwclear (CALL), a gynhaliwyd yn Genefa yn Ebrill a Mai, wedi methu cytuno ar faterion o sylwedd. Prif asgwrn y gynnen oedd Erthygl 6 sy'n ymrwymo gwladwriaethau sy'n arddel arfau niwclear i ddiarfogi niwclear. Mae'r gwledydd niwclear-arfog yn anfodlon iawn i ymrwymo i fesurau diarfogi pendant. Siaradodd mudiadau heddwch a chydweithrediad a oedd yno â chynrychiolwyr a'r cyfryngau, a llwyddwyd i ddarbwyllo mwy na 100 o wladwriaethau'r mudiad amhleidiol i gyd-feirinadu trefniadau rhannu arfau niwclear NATO yn gyhoeddus. Croesawodd Wcraen ddatganiad NATO na fyddid yn gosod arfau niwclear ar diriogaeth aelodau newydd, gan bwyso am 'ddogfen orfodol ar y mater hwn'.

## Yr Almaen yn erbyn niwcs!

Datgelodd arolwg barn a gomisiynwyd gan adran yr Almaen o Feddygon Rhyngwladol dros Atal Rhyfel Niwclear bod mwy na 87% o'r rheini a holwyd yn cytuno y dylai'r pwerau arfau niwclear gael gwared o'u harfau yn ddioed. Mae canran gyffelyb yn gofyn i lywodraeth yr Almaen weithredu i symud pob arf niwclear o'u gwlad.

## Wraniwm hesb yn yr Alban, Irac a Chaerdydd

Er 1981 taniwyd mwy na 6,000 o ffrwydron wraniwm hesb (WH) ar Feysydd Tanio Milwrol Dunreddan ger Kircudbright yn yr Alban. Am y tro cyntaf ers hynny, mae'r llywodraeth wedi cyfaddef bod y ffrwydron wedi chwalu yn ystod y profion, ac efallai eu bod yn fygythiad i iechyd a'r amgylchedd. Nid yw hi'n

syndod bod arwylio yn yr ardal wedi datgelu lefelau uchel o WH mewn samplau pridd a glaswellt. Nid yw hi'n synnu neb chwaith i Ken Gibbs, pennaeth yr "Asiantaeth Ymchwil Gwerthuso Amddiffyn", ddweud "nid oes dim perygl arwyddocaol i'r cyhoedd nac i'n gweithwyr".

Yn y cyfamser, mae ymchwil i gancrau plentyndod yn Irac wedi dangos dolen gyswllt rhwng yr afiechydon hyn ac arfau WH a ddefnyddiwyd yn Rhyfel 1991. Defnyddiwyd arfau yn cynnwys wraniwm hesb ledled Irac. Bomiwyd trefi, pentrefi, mosgiau, eglwysi, ysgolion ac ysbytai. Yn ôl un gohebydd, Felicity Arbuthnot, "mae plant yn dal i gasglu darnau o daflegrau a mynd â nhw adref". Mae'r llwch ymbelydrol a gynhyrchir gan y trawiad pan fydd y taflegryn neu'r bwled yn llosgi ar dymheredd uchel, yn ymbelydru meinwe'r corff pan anadlir neu lyncir ef.

Defnyddir wraniwm hesb i wneud casys taflegrau am ei fod yn ddefnydd trwchus dros ben sy'n gallu trywannu arfogaeth ddur. Defnyddid WH wrth gynhyrchu casys arfbennau yn Llanisien, Caerdydd, ac fe all fod wedi llygru'r safle'n helaeth.

### Trident - 'tegan yr hogia'

Bwriedir gwahardd llongwragedd rhag gweithio ar longau tanfor niwclear.

Mae'r llynges yn ofni y bydd llongwragedd yn darganfod eu bod yn feichiog yn ystod patrôl maith llong danfor ar y môr, ac mae'n cyfaddef y byddai "hyd yn oed lefelau isel o ymbelydredd yn berygl mawr i'r plentyn yn y groth". Mae'n iasol i feddwl bod tanforwyr Trident yn gwbl ymwybodol o effeithiau eu gweithredoedd ar blant a allai gael eu taro gan eu harfau. Mae beirniaid wedi gofyn pam, os yw menywod mewn perygl, yna pam nad yw dynion (a'u deunydd genetig hwythau) hefyd? Mae mater lletya dynion a menywod ar long danfor yn codi yn y fan hon. Dywedodd John Ainslie o CND'r Alban wrth bapur-newydd yr Alban y Daily Record, bod y llynges wedi gadael y gath o'r cwd wrth gyfaddef bod perygl: "a beth am fenywod sy'n methu cael plant? Mae'r llynges yn dweud bod y broblem yn codi o ddiffyg lle byw. Os yw hynny'n wir, yna'r ateb sinigaidd yw bod â chriw o fenywod yn unig".

# Dosau uwch o ymbelydredd? Mae wedi digwydd!

Mae mwy o dystiolaeth yn dod i'r amlwg bod y diwydiant niwclear wedi llwyddo unwaith eto i lacio'r diffiniad o lefelau o ymbelydredd nad oes rhaid eu trin fel gwastraff ymbelydrol. Tra'r oedd y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) yn ymgynghori ynghylch Cyfeireb 29/96 Euratom, daeth yn amlwg mewn seminar ym mis Mehefin a roddwyd gan Dr Peter Buckley HSE bod pawb yn gytun 'y tu ôl i'r llenni'.

Defnyddir yr eithriadau hyn ymhob sefyllfa - tir llygredig, deunydd sy'n gollwng, nwyddau, ysbytai. I danlinellu pa mor ddibwynt yw'r broses ymgynghori, cyhoeddodd yr NRPB ei 'Revised Generalised Derived Limits for the radioisotopes of strontium, ruthenium. iodine, caesium, plutonium, americium and curium' (NRPB Cyf. 9 Rhif 1 1998) heb hyd yn oed aros i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

Llaciwyd y Terfynau Cyffredinoledig Deilliadol (TCD) rhwng 3 a 5 gwaith ar gyfer Plwtoniwm. Byddai mabwysiadu'r safonau hyn ar safleoedd fel Harwell, Aldermaston, Dounreay a Sellafield yn arbed biliynau o bunnau i'r llywodraeth a'r UKAEA ac ati mewn costau glanhau safleoedd! Mae'r NPPB yn awgrymu y bydd y terfynau newydd mwy llac hyn yn golygu y gellir rhyddhau tir ar gyfer datblygiadau tai preifat (fel y cynnig ar gyfer 300 o dai yn Harwell).

Yn y cyfamser nid yw papur ymgynghorol y Swyddfa Gymreig ar 'Reoli ac Adfer Tir wedi ei Lygru gan Ymbelydredd' hyd yn oed yn crybwyll y gostyngiad mewn safonau sydd ar fin digwydd, ond y mae'n awgrymu efallai mai'r Cynulliad newydd ddylai benderfynu yn derfynol. Peidiwch ag oedi - ysgrifennwch at eich AS!

Ni wneir unrhyw ymgais unrhywle yn y broses hon i gyfiawnhau gostwng safonau drwy gyflwyno tystiolaeth wyddonol newydd. Mae'n amlwg mai'r diwydiant niwclear sydd y tu cefn i hyn, yn ceisio osgoi'r atebolwrydd anferth am glirio'r llanast a grewyd ganddo.

***Hugh Richards Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru***

GWEITHREDU

Mae Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac yn cynhyrchu'r ffeithiau diweddaraf ar y diwydiant niwclear. Cysylltwch â Les Thomas i ymuno a derbyn llythyron newyddion rheolaidd: (01443) 690419

*"Proposals for Revised Ionising Radiations Regulations and Supporting Approved Code of Practice Consultative Documents", Uned Bolisi Amddiffyn rhag Ymbelydredd HSE (1998).*

# Dyddiau Diddymu 98

Bwriad y dyddiau hyn yw galw sylw at farn gynghorol y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol a gafodd, ym mis Gorffennaf 1996, y byddai bygwth defnyddio neu ddefnyddio arfau niwclear yn anghyfreithlon o dan bron unrhyw amgylchiadau.

RESIST.

### Gwersyll Heddwch Ryngwladol, Gwlad Belg

Cynhaliwyd y cyntaf o dri digwyddiad Diddymu ym Mrwsel ym mis Gorffennaf. Roedd pum gweithredydd ifanc o Gymru yn amlwg yn y ddirprwyaeth Brydeinig, a ymunodd â'r gwersyll heddwch rhyngwladol a drefnwyd "Ar Gyfer y Fam Ddaear" y tu allan i Bencadlys NATO ym Mrwsel. Adroddiad llawn ar y weithred yn rhifyn nesaf Heddwch.

RESIST.

### Taith Gerdded Heddwch Ryngwladol, Brwsel i Faslane

Ymadawodd cerddwyr â Brwsel ar ddiwedd y gwersyll Heddwch Rhyngwladol, gan ymweld ag Aldermaston, Derby a Sellafield ar y ffordd, a chyrraedd gorsaf longau tanfor niwclear Trident yn Faslane, yr Alban mewn pryd i ddal gweithredoedd Trident Ploughshares 2000.


RESIST.

### Arolygiadau Dinasyddion

Ddydd Sadwrn 3 Hydref bydd timau arolygu yn ymweld â safloedd Trident ledled Prydain. Darperir cardiau adnabod "swyddogol" a chlipfyrddau.

GWEITHREDU

Er mwyn cymryd rhan neu am ragor o wybodaeth, cysyllter ag CND Prydeinig: (0171) 700 239



# Rhyddhewch Leonard Peltier



Mae Bobby Castillo o genedl yr Apache, a llefarydd rhyngwladol Pwyllgor Amddiffyn Leonard Peltier yn bwriadu teithio gwledydd Prydain yn yr hydref. Ef oedd cydgysylltydd Tribiwnlys Rhyngwladol y Bobloedd Frodorol ym 1992 ac mae wedi treulio blynyddoedd yn dwyn pwysau ar lywodraethau'r UD ac Ewrop parthed achos Leonard Peltier. Dedfrydwyd Leonard Peltier, gweithredydd o American Brodorol Chippewa/Lakota, i ddau dymor o garchar am oes ym 1976 pan honwyd ei fod wedi lladd dau asiant FBI. Roedd y collfarniad yn seiliedig ar dystiolaeth ffals a chelwyddog a gyflwynwyd gan yr FBI. Roedd Mr Peltier yn ymgyrchydd ac yn un o arweinwyr Mudiad Indiaid America, ac aeth yn darged i raglen Cointelpro hyll yr FBI sy'n 'niwtraleiddio' pobl a mudiadau sy'n fygythiad i'r status quo.

Er gwaetha'r ffaith i Lys Apêl benderfynu fod achosion llys ac apêl Mr Peltier yn tystio'n glir i gamymddygiad llwyr yr FBI, a'i fod o'r farn fod y camymddwyn hwnnw yn "gamddefnydd clir o'r broses ymchwiliadol", gwrthododd ganiatáu achos llys newydd am ei fod "yn gwrthwynebu gorfod addef mwy o gamgymeriadau a rhai newydd ar ran yr FBI". Mae Mr Peltier bellach yn ceisio pardwn gan yr Arlywydd Clinton. Mae ganddo gefnogwyr a grŵpiau cefnogi yn ymgyrchu o'i blaid ledled y byd.

## Cefndir

Er 1951, cynhyrchwyd llwythi anferth o wastraff gan weithgareddau cloddio a llifanu wraniwm ym Mryniau Du Dakota. Gwarantwyd y tir yn yr ardal hon i bobloedd Americanaidd Frodorol y Lakota (Sioux) o dan Gytundeb Fort Laramie 1868. Mae llywodraeth yr UD a busnesau corfforaethol wedi torri amodau'r cytundeb yn gyson, ac wedi tresmasu ar dir y Lakota. Mewn ymateb i hynny, ymffurfiodd mudiad o bobl gyffredin i herio'r anghyfiawnder hwn, ac un o'r arweinwyr oedd Leonard Peltier.

Ar y 26ain o Fehefin 1975, tra'r oedd negydu yn mynd yn ei flaen yn Washington i ganiatáu rhagor o fwyngloddio ar y tir, lladdwyd dau ddyn FBI ac un dyn Lakota ar Warchodfa Pine Ridge. Carcharwyd Leonard Peltier ym 1976 am farwolaethau'r asiantiaid FBI er nad oedd dim tystiolaeth uniongyrchol i brofi ei fod yn euog. Nid ymchwiliwyd i farwolaeth y dyn Lakota, Joseph Stuntz, o gwbl.

## Gwrthod parôl

Mewn gwrandawiad parôl ym mis Rhafyr 1995, ategodd erlynydd y llywodraeth, Lynn Crooks, nad oes dim tystiolaeth uniongyrchol yn bod yn erbyn Peltier, ac nad oes gan y llywodraeth dystiolaeth i "ailgollfarnu" pe cynhelird achos llys newydd.

Mewn gwrandawiad parôl diweddar ar Fai'r 4ydd, dywedwyd wrth Mr Peltier: "rydym wedi siarad â gwraig un o'r asiantiaid ac mae hi am i chi farw i mewn yma. Chewch chi ddim gwrandawiad parôl arall tan 2008. Fe gymerwn ni bethau oddi yno." Dywedwyd wrtho hefyd "fedr y llywodraeth ddim profi pwy oedd yn gyfrifol am ladd yr asiantiaid, ond mae rhaid i rywun dalu."

<u>Ann O'Connor</u>

**GWEITHREDU**

Am fanylion pellach am daith siarad Mr Castillo, cysylltwch â:

Lesley Worrall, LPSG, 140 Garmoyle Rd., Lerpwl L15 5AD, tel (0151) 733 7691, e-bost: LPSGLIV@aol.com.

Gellwch chi helpu drwy geisio pardwn gan yr Arlywydd Bill Clinton, Y Tŷ Gwyn, 1600 Pennsylvania Ave., Washington DC 20500, UDA, e-bost: president@whitehouse.gov.

Danfonwch gopi o'ch llythyr ac unrhyw atebion at Lesley yn y cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda. Os teimlwch fel gwneud cyfraniad ariannol i'r ymgyrch, danfonwch sieciau, a ddylai fod yn daladwy i LSPG Liverpool, i'r cyfeiriad uchod.

## Denis Martin




*LLUN: RAY DAVIES*

DENIS MARTIN (CEFN, CHWITH) AC CND CAERFFILI GER Y SWYDDFA GYMREIG, MEDI 1994

Bu farw Denis Martin, Llanbradach, Caerffili, ymgyrchydd dros heddwch a chyfiawnder yn Ngogledd Iwerddon, aelod gweithgar o CND Cymru, Grŵp Cefnogi Palesteina ac CND y cyn-Luoedd, yn dawel yn Ysbyty Felindre ar yr 16eg o Fehefin wedi cystudd maith. Roedd Denis yn adnabyddus i bawb sydd wedi mynychu cyfarfodydd Cyngor CND Cymru yn Llandrindod am ei ddeallusrwydd, ei frwdfrydedd, gonestrwydd, cyfeillgarwch a'i ymrwymiad dwfn i waredu'r byd o arfau niwclear. Gwelsai Denis anrhaith yr Ail Ryfel Byd, a mabwysiadodd ymgyrchu dros heddwch a chyfiawnder mewn llawer rhan o'r byd yn ymgyrch iddo ef ei hun. Bydd fy atgofion hoff am Denis wrth i ni deithio yn y car i gyfarfodydd y Cyngor yn aros gyda fi am byth. Byddai bob amser yn mynd drwy'r agenda yn drylwyr a phob amser yn gwneud cyfraniad gwerthfawr ar ba bwnc bynnag oedd yn cael ei drafod. Tanlinellir ei ymrwymiad i CND Cymru gan y ffaith iddo fynychu ei gyfarfod Cyngor olaf un ym mis Mai eleni er ei fod yn ddifrifol wael erbyn hynny. Bydd y ffaith bod cyfeillion lu Denis yn y mudiad heddwch ac yn y frwydr ehangach dros gyfiawnder ledled y byd yn rhannu eu profedigaeth o'i golli yn rhyw fesur bychan o gysur i'w ddwy ferch hyfryd - Michelle a Carol.

<u>Ray Davies</u>

## Les Powell

Yn gynnar ym mis Mehefin eleni, bu farw Les Powell o Abercrâf pan oedd ar wyliau yn UDA. Roedd Les yn hen law ar ymgyrchu, yn barod i dderbyn canlyniadau gweithredu di-drais i gefnogi ei ddaliadau. Roedd yn aelod gweithgar o CND Cymru a Chymdeithas yr Iaith. Cymerodd ran yn yr ymgyrch Gaseg Eira ym Mreudeth ym 1986 ochr yn ochr â'r wraig Jessie. Teimlai Les yn gryf ryfeddol am heddwch a'r iaith Gymraeg. Bydd llawer ohonom yn gweld ei eisiau'n dost, ac estynnwn bob cymymdeimlad i Jessie annwyl a'r plant - rydych yn ein meddyliau.

Diflanna geiriau, ond erys gweithredoedd.

<u>Rod Stallard</u>

*Maent yn un â'r goleuni ...*
*Lle'r ymgasgl, trwy'r ehangder, hedd.*
*Waldo Williams*



## Pentwr Arfau Niwclear y Byd




Er gwaetha'r ffaith bod llawer o bobl yn credu nad oes arfau niwclear ar gael bellach, mewn gwirionedd mae mwy na 36,000 o arfau niwclear yn y byd. Mae gan Rwsia 22,500, mae gan yr UD 12,070, mae gan Tsieina 450, Ffrainc 350, ac Israel 150-200, a Phrydain 384. Dim ond bras syniad a rydd y niferoedd eu hunain o bwer dinistriol gan bod gallu, cywirdeb, parodrwydd, systemau tanio a diffyg moesoldeb gwleidyddol oll yn cyfrannu at angeuoldeb yr arfau. Yr hyn sy'n sicr yw bod presenoldeb dim ond un arf niwclear yn y byd yn un yn ormod, ac mae'r gorchwyl o'u dileu yn rhy fawr ac yn rhy bwysig i'w adael i'r gwleidyddion a'r milwyr.

*Ffynhonnell y ffigurau: Arkin, Norris a Handler, Taking Stock: World-wide Nuclear Deployments 1998, Natural Resources Defense Council Inc., Washington DC.*



NAGASAKI 10 AWST 1945

# Y Cyn-Arglwydd Adfocad yn yr Alban



### Yr Arglwydd Murray yn cefnogi Dyfarniad Llys Rhyngwladol Gorffennaf 1996

Mewn araith ddisglair ym mis Mehefin, cefnogodd yr Arglwydd Murray yn ddiamod y farn y byddai defnyddio neu fygwth defnyddio Trident yn anghyfreithlon o dan gyfraith ryngwladol. Yn ei anerchiad, tanlinellodd y ffaith bod cyfraith ddyngarol ryngwladol bron yr un ffunud â gofynion moesol dynoliaeth a chydwybod. Datganodd y dyfarniad rhyngwladol ar yr 8fed o Orffennaf 1996:

1 byddai bygwth defnyddio neu ddefnyddio arfau niwclear yn gyffredinol yn groes i gyfraith ryngwladol;

2 na ellid pennu'n bendant a fyddai'r fath fygythiad neu defnydd yn gyfreithlon mewn amgylchiadau eithafol o hunan-amddiffyn pan oedd goroesiad y wladwriaeth yn y fantol.

Pwysleisiodd yr Arglwydd Myrray bod Llywydd y Llys wedi datgan hefyd nad yw'r ail bwynt yn golygu bod y drws yn gil-agored ar gyfer cydnabod cyfreithlondeb bygwth defnyddio neu ddefnyddio arfau niwclear.

Dywedodd yr Arglwydd Murray bod Trident eisoes yn anghyfreithlon o dan amodau Confensiwn yr Hâg 1899 a gadarnhawyd gan gonfensiwn Genefa 1977. Gan na ellir cyfyngu ar effeithiau arfau niwclear Trident o ran gofod nac amser, maent gan hynny yn anghyfreithlon oherwydd eu pwer dinistriol anwahaniaethol. Ni ellid defnyddio Trident i ddibenion hunan-amddiffynnol. Nododd hefyd y dywedai dyfarniad pwysig gan y llys "bod oblygiad cyfreithiol ar y gwladwriaethau arfau niwclear i negydu a gweithredu diarfogi niwclear o dan reolaeth ryngwladol gaeth ac effeithiol".

Daeth yr Arglwydd Murray i'r casgliad bod y ffaith bod Prydain yn dal i lynu wrth bolisi o ddefnyddio arfau niwclear gyntaf yn tramgwyddo dyfarniadau'r Llys a bod Dyfarniad Llys y Byd yn rhoi cyfle i ni helpu i ffurfio datblygiad cyfraith ryngwladol a hyrwyddo rheolaeth cyfraith ryngwladol.

I gloi, dywedodd ein bod oll yn rhan o gydwybod cyhoeddus y ddynolryw.

***Rod Stallard***

# CND Cymru CCC

## 5ed Medi 1998

## 11.00am - 4.00pm

Gwahoddir pob aelod o CND Cymru a chynrychiolwyr grŵpiau cysylltiedig i'r Cyfarfod Blynyddol. Bydd y siaradwyr gwâdd yn cynnwys Angie Zelter o fenter gweithredu uniongyrchol Trident Ploughshares, a Larry Ross, ymgyrchydd heddwch a gweithredydd Ardaloedd Di-Niwclear o Seland Newydd. Mae'r lleoliad i'w gadarnhau, felly, am fwy o wybodaeth, gweler y daflen amgaeëdig, a/neu cysyllter â'r Ysgrifennydd Cenedlaethol. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y cyfarfod.

## Cynhadledd CND Prydeinig, Neuadd y Dref, Manceinion 18-20fed Medi 1998

Ddydd Gwener y 18fed, bydd y gynhadledd yn cychwyn gyda digwyddiad undydd - 'Apêl yr Hâg am Heddwch' lle bydd Bruce Kent, aelod o fudiad heddwch Iwerddon, a chynrychiolydd yr Hibakusha (y rhai a oroesodd y bom atomig) o Siapan yn annerch Fforwm Pobl Ifanc. Bydd fideos hefyd, trafodaethau panel, gweithdai, a noson gymdeithasol. Ddydd Sadwrn a dydd Sul bydd Cynhadledd CND ei hunan yn cynnwys yr holl ddadleuon, etholiadau a gweithdai arferol gyda noson gymdeithasol nos Sadwrn. Am fwy o wybodaeth, cysyllter ag CND ar (0171) 700 2393. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw'r 4ydd Medi (21ain o Awst gyda llety). Dylai pobl ifanc sydd am fynychu ond sydd ag angen cymorth ariannol gysylltu â Jill Stallard, CND Cymru (gweler cysylltiadau) cyn gynted â phosib.



### Ymgyrchwyr gwrth-niwclear yn Uwch-Gynhadledd Ewrop

Cynrychiolodd yr Ysgrifennydd Cenedlaethol Jill Stallard CND Cymru fel rhan o ddirprwyaeth a gyflwynodd ddeiseb â 15,000 o enwau arni i Uwch-Gynhadledd Ewropeaidd Caerdydd. Casglwyd yr enwau ym Mhrydain, Ffrainc, Awstria a Sweden ac roeddynt yn adlewyrchu pryder ynghylch peryglon posibl unrhyw lacio ar y rheolaethau sy'n rheoli ailgylchu defnyddiau ymbelydrol. Cyflwynwyd y deisebau i'r Farwnes Symons o'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad gan Richard Bramhall o'r Ymgyrch Ymbelydredd Lefel Isel, Richard Livsey AS, Dr Chris Busby, Per Hegelund o Gyfeillion y Ddaear Sweden, a Jill Stallard. Gwrandawodd y Farwnes Symons yn astud, ac addawodd ddwyn y materion a godid gan y ddeiseb i sylw Gweinidog yr Amgylchedd, Michael Meacher. Yn y llun, o'r chwith i'r dde: Per Hegelund, y Farwnes Symons, Richard Livsey AS, Jill Stallard a Richard Bramhall o'r Ymgyrch Ymbelydredd Lefel Isel.

**Rwyf eisiau ymuno a'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ______________________

Cyfeiriad ______________________

______________________

______________________ Côd post

Ffôn ______________________

Amgaeaf siec/GP am £ ________ yn daladwy I CND Cymru.

Cwpl £15; oedolyn £10; digyflog, pensiynwr, ieuenctid £3.
Dychweler i CND Cymru, 72 Heol Gwyn, yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN

# CND CYMRU CYSWLLT

**YSGRIFENNYD CYFFREDINOL**
Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddfri, Sir Gaerfyrddin SA20 0LR. (01550) 750260

**CADEIRYDD**
David Morris MEP. (01792) 643542

**IS-GADEIRYDDION**
GOGLEDD CYMRU:
Dave Andrews. (01978) 310491
CANOLBARTH:
Olwen Davies.(01970) 611994
Rod Stallard. (01550) 750260
DE CYMRU:
Ray Davies. (01222) 889514

**AELODAETH**
72 Heol Gwyn, yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN

**MUDIADAU CYSYLLTIEDIG**
Rhoda Jones. (01766) 762739

**MASNACHU**
Jan Henderson. (01792) 830330

**TRYSORYDD**
Jean Bryant, 16 Clos Ty'n y Cymer, Y Porth, Rhondda CF39 9DF

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda.**

**Am gwyno am awyrennau milwrol sy'n hedfan yn isel? Ffoniwch y Weinyddliaeth Amddiffyn 0171 218 6020**

## Cyfraniadau i Heddwch

Bydd y rhifyn nesaf o Heddwch yn ymddangos ym mis Tachwedd 1998. Ffoniwch Jill am y dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf. Danfoner cyfraniadau at Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR (01550) 750260. Croesewir cyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur neu e-bost. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (0958 800614, e-bost production@capricorn55.u-net.com) am fanylion.Croesewir pob cymorth gyda'r gwaith golygyddol.Cyhoeddwyd gan CND Cymru. Rhif 17.Argraffwyd gan Wasg y Barcud Coch. Cyfieithir Heddwch gan Siân Edwards (e-bost: sian@derwen.demon,co.uk) Diolchiadau hwyr i Cymru Lingua (01792) 896171 am gyfieithu'r rhifyn diwethaf o Heddwch.

# Camgymeriad ar ôl camgymeriad

### Lawnsio Vengeance - y bedwaredd long danfor niwclear Trident Brydeinig

*"Fedra'i ddim credu ein bod yn mynd i ddechrau'r 21ain ganrif drwy weld yr is-gyfandir Indiaidd yn ailadrodd camgymeriadau gwaethaf yr 20fed ganrif pan wyddom nad yw'n angenrheidiol i heddwch, i ddiogelwch, i fawredd cenedlaethol na chyflawniad personol."* Arlywydd yr UD Bill Clinton, Mai 1998.

Er gwaetha'r ffaith i'r Prif Weinidog Tony Blair ddweud wrth y Byd yn ddiweddar nad arfau niwclear oedd "y ffordd i ennill cydnabyddiaeth ryngwladol", methodd yntau atal comisiynu'r olaf o'r llongau tanfor Trident Prydeinig.

Canslwyd holl wyliau'r heddlu yn Barrow in Furness ar yr 22ain o Awst gan fod disgwyl y bydd miloedd o brotestwyr yn tyrru i Barrow yn Cumbria i brotestio yn erbyn lawnsio'r llong danfor Trident a fydd yn cwblhau'r set o bedair. Fodd bynnag, mae si ar led y bwriedir oedi'r lawnsio. Pa ddyddiad bynnag y bydd, bydd gwrthdystiad swnllyd yn erbyn yr achlysur gwarthus ar y bont gyferbyn â safle'r seremoni glodfori.

Bydd presenoldeb â baneri, drymiau a chwibanoglau yn sicr o dynnu sylw'r bobl drwsiadus a chibddall a fydd yn ymgynnull yn Barrow i weld y lawnsio: gofynnwn iddynt "pa neges mae'r lawnsio hwn yn ei ddanfon at India a Phakistan a phawb a ymgynulliodd yn y Gynhadledd ar Ddiarfogi yn Genefa?"

**GWEITHREDU**

Bydd croeso mawr i'ch cefnogaeth chi yn Barrow i ddangos nad dim ond India a Phakistan sydd yn "niwclear wallgof". Os na allwch fod yno, efallai y gallech ddanfon negeseuon o gefnogaeth. Gellir trefnu llety - cysylltwch ag CND Cumbria a Gogledd Swydd Gaerhirfryn (01768) 898641 am fanylion llety a gofynnwch iddynt eich hysbysu o'r union ddyddiad!

## SAKUE SHIMOHIRA YN FASLANE



Pan oedd Sakue Shimohira yn 12 oed, roedd yn byw yn ninas Nagasaki.

Roedd mewn byncar 400 metr o'r lle syrthiodd y bom atomig ar y 9fed o Awst 1945. Pan ymwelodd â gorsaf llongau tanfor niwclear Trident Faslane, adroddodd ei hanes yn colli ei mam, ei brawd, ei chwaer a'i ffrindiau oherwydd y bom atomig. Disgrifiodd yr olygfa:

"Roedd mamau'n wylo am eu plant, a phlant am eu mamau, ond ni waeth faint yr wylent neu ba mor bell yr ymestynent eu breichiau, ni ellid eu cysuro."

Dyna'r math o arf rydym ni, fel trethdalwyr, wedi ei brynu. Mae pobloedd gwledydd Prydain wedi ethol llywodraeth sy'n parhau i gyfiawnhau meddu'r fath arfau aflednais, bygwth pobl gyda nhw, a bod yn barod i'w defnyddio. Dylem gofio nad yw Prydain, er gwaethaf ei geiriau gwych am waredu'r byd o arfau niwclear, erioed wedi chwarae unrhyw ran mewn negydu i gael gwared o'r un o'i harfau niwclear.

Mae angen gweithredu ar frys. Rhaid pwyso ar y llywodraeth i:

- gael gwared o bob arf niwclear Prydeinig;
- gweithio ar unwaith i sicrhau NATO ddi-niwclear;
- weithredu'n uniongyrchol i ddechrau proses yn y CU o negydu cytundeb cynhwysfawr byd-eang yn gwahardd arfau niwclear.

**GWEITHREDU**

Cofio Hiroshima a Nagasaki. Bydd digwyddiadau yn Abertawe, Aberystwyth, Llandrindod, Ystradgynlais, Caerdydd, Penybont a lledled Cymru ar Awst 6 (dydd Hiroshima) ac Awst 9fed (dydd Nagasaki). Am wybodaeth cysyllter ag CND Cymru neu'ch Is-Gadeirydd agosaf (gweler cysylltiadau).